# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2296 |
| Committee | Pwllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Date | 22/06/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Haydn Trollope (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stewart Healy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John C. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr David Wilkshire (Aelod Pwyllgor)<br>Mr. Tim Baxter (Co-Optee)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Michelle Jones (Swyddog)<br>Gavin Metheringham (Swyddog)<br>Claire Gardner (Swyddog)<br>Joanne Sims (Swyddog)<br>Luisa Munro-Morris (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Damien McCann (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Cynghorwyr Joanne Collins (Notify) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4784 |

| | |
|---|---|
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4785 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-<br><br>Cynghorydd Derrick Bevan<br>Cynghorydd Clive Meredith<br><br>Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4786 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Datganodd y Cynghorydd Stewart Healy fuddiant yn eitem 10 – Adroddiad Perfformiad a Monitro Hamdden Aneurin (Ebrill 2020 – Mawrth 2021). |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4789 |
| Item Title | Amser Cyfarfodydd y Dyfodol |
| Summary | CYTUNODD y Pwyllgor y dylid cynnal cyfarfodydd y dyfodol ar ddyddiau Mawrth i gychwyn am 10.00 a.m. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4787 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o’r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau’r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4889 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau’r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4930 |
| Item Title | Dalen Weithredu – 20 Ebrill 2021 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2021, yn cynnwys:-<br><br>**<u>Grantiau a Ddyfarnwyd i'r Gyfarwyddiaeth Addysg</u>**<br><br>Holodd Aelod pam fod y swm y gyllid a dderbyniwyd ar gyfer Ysgol Gyfun Tredegar bron yn ddwywaith y swm a dderbyniwyd ar gyfer Ysgol Sylfaen Brynmawr a Chymuned Ddysgu Abertyleri. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y byddai'n edrych ar y gwahaniaethau ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am sut y byddai Cynghorwyr Her PDG yn rhyngweithio gyda ac yn herio penaethiaid ysgolion, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y byddai'r Cynghorwyr Her yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion i sicrhau y caiff y cyllid ei ddefnyddio mewn modd priodol ar draws yr ysgolion a sicrhau y defnyddir yr adnodd yn effeithlon i gefnogi'r dysgwyr hynny a gaiff eu targedu, yn unol â'r meini prawf ar gyfer grantiau.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y gwahaniaethau a ddangosir yn y symiau Grantiau PDG, mae'r grantiau hyn yn seiliedig ar nifer y disgyblion prydau ysgol am ddim o fewn ysgolion a theimlai y gellid cyflwyno eitem ar yr ymyriadau mewn gwahanol ysgolion a sut mae'n helpu disgyblion prydau ysgol am ddim i sicrhau cynnydd. Cyfeiriodd yr Aelod at y canran o brydau ysgol am ddim ym Mlaenau Gwent a holodd os y gellid edrych ar hyn, gan y teimlai nad oedd pob plentyn sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn cael yr hyn y mae ganddynt hawl iddo a bod hyn yn effeithio ar y grantiau sy'n mynd i ysgolion. Teimlai ei bod yn anodd dod o hyd i wybodaeth ar wefan Blaenau Gwent am hawl i brydau ysgol am ddim ac y dylai'r ddolen ar gyfer ceisiadau fod yn fwy amlwg. Cododd bryderon hefyd fod asesiadau prydau ysgol am ddim yna awr yn cael eu cynnal bob 3 blynedd.<br><br>Yng nghyswllt y sefyllfa am brydau ysgol am ddim a'r ffordd y caiff ei asesu o fewn ysgolion, dywedodd y Cyfarwyddwr y gwnaed llawer o waith yn ystod y pandemig sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn gysylltiedig gyda chymhwyster o amgylch prydau ysgol am ddim. Y sefyllfa ddiweddaraf oedd bod gan tua 1,700 o blant yn awr hawl i brydau ysgol am ddim ac y cedwir golwg agos ar y sefyllfa. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg ei bod yn debyg bod cynnydd o tua 30 i 40% yn nhermau teuluoedd a phlant sydd â hawl i brydau ysgol am ddim oherwydd yr effaith yn gysylltiedig gyda COVID yn ymwneud â statws economaidd-gymdeithasol yr ardal. Yng nghyswllt pwynt cyntaf yr Aelod, mae un o'r papurau gwybodaeth yn amlinellu rhai o'r meysydd ar gyfer gwariant posibl ar y PDG fel bod aelodau yn cael eu gwerthuso o safbwynt Prydau Ysgol am Ddim a Phlant sy'n Derbyn Gofal ar draws y stad ysgolion. Byddai'r Cyfarwyddwr yn rhoi gwybodaeth ddi-enw i Aelodau am y mater hwn a hefyd yn sicrhau fod y ddolen i geisiadau ar gyfer prydau ysgol am ddim yn fwy amlwg ar y wefan. |

| | |
|---|---|
| | Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am ba canran o deuluoedd sy'n hawlio prydau ysgol am ddim, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y canran tua 30% ond pwysleisiodd fod y sefyllfa yn gyfnewidiol. Dywedodd Aelod ei bod yn bwysig cysylltu gyda'r teuluoedd hynny nad oedd yn hawlio gan fod hwn yn arian y mae'r teuluoedd, ysgolion a'r gwasanaeth Addysg yn ei golli. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid ac Addysg Busnes eu bod yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion er mwyn cael y neges mas i rieni ac yn cydlynu gydag ysgolion pan ddaw cymhwyster newydd ar-lein, maent yn gweithio'n agos gyda'r adran Budd-daliadau hefyd yr adran Perfformiad ac yn cynnal trafodaethau gydag ysgolion sydd yn eu tro yn cael trafodaethau gyda rhieni am sicrhau eu bod yn defnyddio eu hawl i wneud cais am brydau ysgol am ddim. Cylchredwyd negeseuon rheolaidd am gylch ceisiadau eFSM yn uniongyrchol drwy'r ysgolion, drwy'r sianeli cyfathrebu â rhieni, mae'r tîm hefyd yn cael nifer sylweddol o alwadau. Dywedodd fod llawer o gyfathrebu, gwybodaeth a chynlluniau yn eu lle i gefnogi'r rhieni hynny ac edrych ar ymgysylltu â theuluoedd sydd newydd ddod yn gymwys.<br><br>Gofynnodd Aelodau pam nad oedd teuluoedd yn defnyddio eu hawl i brydau ysgol am ddim gan fod cymaint o gefnogaeth ar gael, a holodd os oedd hyn oherwydd fod stigma yn gysylltiedig. Atebodd y Cyfarwyddwr Addysg y gallai hyn fod yn broblem, fodd bynnag mae gwasanaethau yn eu lle i geisio trin y mater tebyg i'r gwasanaeth Arlwyo yn gweithio'n agos gydag ysgolion am arlwyo heb ddefnyddio arian parod fel nad oedd y dysgwyr yn cael eu dynodi fel bod yn derbyn prydau ysgol am ddim. Roedd hefyd daliadau uniongyrchol i deuluoedd felly nad oedd ffordd o ddynodi'n uniongyrchol y teuluoedd hynny oedd yn derbyn yr hawl.<br><br>Yng nghyswllt taliadau uniongyrchol holodd Aelod os cynhelir gwiriadau fod y teuluoedd sy'n derbyn taliadau uniongyrchol mewn gwirionedd yn ei ddefnyddio i dalu am brydau ysgol am ddim i'w disgyblion. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes y caiff y cymhwyster ei reoli mewn partneriaeth gyda'r Adran Budd-daliadau, sydd wedyn yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau fod y disgyblion hynny yn cael mynediad i brydau ysgol am ddim. Dywedodd fod ysgolion yn ogystal ag Arlwyo yn rhoi cefnogaeth ychwanegol pan fo problemau ariannol ar gyfer teuluoedd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithredu. |

| Item ID | 4931 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith 2021-22 arfaethedig y Pwyllgor Craffu |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod hon yn ddogfen y gellid ei newid.<br><br>Nododd Aelod fod yr adroddiad ar Gytundebau Adran 106 yn eitem er gwybodaeth a theimlai y dylai hyn fod yn eitem agenda ar gyfer y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| | fel bod Aelodau yn cael dealltwriaeth well ar fuddion Cytundebau Adran 106, sut y defnyddir yr arian a sut maent yn cysylltu gyda'r Cyfarwyddiaethau Addysg, Cynllunio ac Adfywio.<br><br>Cynigiodd y Cadeirydd fod yr adroddiad ar Gytundebau Adran 106 yn cael ei dynnu o'r pecyn gwybodaeth ac yn cael ei gyflwyno fel eitem Agenda i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.<br><br>CYTUNWYD ar y llwybr gweithredu hwn.<br><br>Holodd Aelod os oes unrhyw adroddiadau ar y flaenraglen gwaith yng nghyswllt y trosiant mawr o benaethiaid ysgol ym Mlaenau Gwent a hefyd y rhai sy'n dewis gael addysg gartref gan fod hyn effeithio ar bresenoldeb disgyblion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod adroddiadau fel rhan o'r flaenraglen gwaith ar bresenoldeb disgyblion a hefyd waharddiadau fyddai'n rhan o'r adroddiadau Cynhwysiant a Gwella Ysgolion. Byddai hefyd ddiweddariadau yn nhermau ble ydym arni gydag arweinyddiaeth, newidiadau posibl a recriwtio yn yr ysgolion hynny sy'n achos consyrn.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at yr EAS a holodd am werth am arian. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod perthynas waith dda gyda EAS sy'n gweithio'n agos gyda thîm Gwella Ysgolion a Chynhwysiant. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor yn flaenorol sy'n rhoi sylw i werth am arian, sy'n seiliedig ar ddau amrywyn allweddol h.y. os yw perfformiad yn cynyddu a safonau'n gwella ac os oedd hynny'n cael ei wneud gyda llai o adnoddau. Teimlai'r Cyfarwyddwr fod yr Awdurdod a hefyd yr EAS yn gwella safonau gyda chyllideb yn gostwng yn ystod cyfnod o lymder yn y sector cyhoeddus.<br><br>Ategodd Prif Gynghorydd Her EAS sylwadau'r Cyfarwyddwr ac ychwanegodd ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Gyfarwyddiaeth Addysg ar tîm Arweinyddiaeth newydd ym Mlaenau Gwent. Rhoddodd sicrwydd i Aelodau fod y bartneriaeth, sef sut y gwelai Llywodraeth Cymru y byddai'r berthynas yn symud ymlaen, yn iach a chryf. Maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac yn cael cyfleoedd ardderchog i edrych ar rolau'r Awdurdod Lleol ac EAS i sicrhau y caiff cefnogaeth i ysgolion ei deilwra yn y ffordd gywir.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo Blaenraglen Gwaith 2021-22 y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a<br><br>CHYTUNODD YMHELLACH y dylai'r eitem wybodaeth ar Gytundebau Adran 106 gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor fel eitem agenda i gael ei ystyried. |

| Item ID | 4932 |
|---|---|
| Item Title | Cyfarwyddiaeth Addysg – Cynllun Adfer ac Adnewyddu |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwella Ysgolion a |

| | |
|---|---|
| | Chynhwysiant a'r Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes, a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau i graffu ar y blaenoriaethau a ddynodwyd gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ar gyfer adferiad ac adnewyddu, fel rhan o'r ymateb i sefyllfa COVID-19.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at ymddygiad disgyblion mewn ysgolion a theimlai y dylai fod cyfeiriad at hyn yn yr adroddiad. Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant fod cyflwr emosiynol dysgwyr, yn cynnwys eu hymddygiad a'r effaith bosibl y gallai hynny ei gael ar ddysgwyr eraill, yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r adroddiad yn cynnwys datganiadau cynhwysfawr ar y meysydd hyn a byddent yn cael eu gwahanu yn gynlluniau llawer mwy manwl h.y. llesiant dysgwyr, ymddygiad emosiynol ac yn y blaen.<br><br>Ategodd y Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes y pwynt hwn a dywedodd fod hyn yn cysylltu gyda thema dysgwyr a hefyd weithrediadau'r ysgol a chefnogaeth i ysgolion o amgylch ymddygiad ar wedd asesiadau risg a staffio yn y blaen, a theimlai fod hon yn agwedd drosfwaol a fyddai'n cael sylw fel rhan o'r cynlluniau gweithredu manwl o amgylch nifer o'r gwahanol feysydd effaith hyn.<br><br>Dywedodd Aelod ei bod yn dda gweld blaenoriaeth yn cael ei roi i lesiant ysgol gyfan a chymorth gydag iechyd meddwl, a hefyd weld cefnogaeth ar gyfer dysgwyr bregus a diwygio ADY yn cael cymaint o sylw, a bod ymgysylltu â rhieni a deimlai oedd yn hollol hanfodol hefyd yn cael ei restru. Credai fod y cynllun yn adlewyrchu'n gywir fod yr Awdurdod Lleol yn ymateb i newidiadau presennol a newidiadau'r dyfodol.<br><br>Yng nghyswllt PPE a masgiau wyneb mewn ysgolion, dywedodd Aelod fod angen i'r Awdurdod fod yn gliriach ar y canllawiau gan fod ansicrwydd am wisgo masgiau wyneb mewn ystafelloedd dosbarth a choridorau. Pwysleisiodd y Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes fod canllawiau clir ym mhob ysgol uwchradd mewn ystafelloedd dosbarth ac mewn ardaloedd cymunol, lle na fedrid cadw pellter cymdeithasol o ddwy fetr, fod disgyblion yn gwisgo gorchuddion wyneb a bod hyn yn weithredol ar draws y stad ysgolion. Os oes problemau sylweddol a gaiff eu cyflwyno a bod ysgolion yn teimlo dan asesiad risg y gallent ymdopi a gweithredu mesurau rheoli ychwanegol, yna gallai'r tîm edrych ar adolygu hynny gyda'r ysgol. Bu cyswllt sylweddol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd, ysgolion arbennig ac ysgolion pob oed a chafodd y canllawiau hynny ei gyfleu'n glir a'i gyfnerthu ar bob cyfle. Os oes unrhyw bryderon neilltuol, cynigiodd y swyddog i drafod hyn tu allan i'r cyfarfod.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at yr effeithiau allweddol a ddynodwyd ar addysg ar dudalen 55 ac yng nghyswllt diogelu, ymgyfraniad y trydydd sector gwirfoddol, mesurau iechyd ataliol a mesurau rheoli Covid-19, mae'r adroddiad yn dweud na fu fawr neu ddim ymgysylltu a theimlai fod hyn yn anghywir gan y bu llawer o ymgysylltu gyda phobl ifanc a rhieni yn ystod y |

pandemig h.y. sicrhau fod prydau ysgol am ddim yn cael eu dosbarthu, ysgolion yn gwneud yn siŵr fod ieuenctid yn ymgysylltu ac yn holi am eu llesiant, gwneud yn siŵr fod yr offer iawn ganddynt ac yn y blaen. Cododd bryderon am y naratif yn yr adroddiad ac nad yw'n dangos y gwahaniaethau rhwng ysgolion, ac na chyfeiriwyd at y gwelliannau a'r gwaith da a ddigwyddodd mewn ysgolion yn yr adroddiad h.y. technoleg ddigidol. Cyfeiriodd hefyd at y cwricwlwm ar gyfer Cymru a theimlai mai mater i ysgolion yw symud ymlaen ar hyn ac edrych sut mae'r cwricwlwm yn ffitio o fewn eu meysydd eu hunain. Teimlai fod lle i wella o fewn y cynllun.

Cytunodd y Cadeirydd gyda sylwadau'r Aelod ac ychwanegodd, drwy brofiad personol yn dosbarthu prydau ysgol am ddim ac yn y blaen, y teimlai y bu'r cyswllt gyda'r gymuned yn gryf a drwy gydweithio bod y gymuned yn deall beth mae ysgolion yn ei wneud.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg gyda sylwadau'r Cadeirydd a'r Aelod y bu'r gweithio partneriaeth o amgylch Covid yn rhagorol ar nifer o lefelau. Fodd bynnag, yng nghyswllt y naratif ar ddiogelu, mae'n sôn am fynediad cyfyngedig i gymorth ysgol ar y safle ac esboniodd fod hyn yn cyfeirio at achlysuron pan fu cefnogaeth ar y safle ar gyfer dysgwyr drwy gydol Covid yn gyfyngedig ar achlysuron lle symudwyd i ddysgu cyfunol. Yng nghyswllt y cynllun Adfer ac Adnewyddu ni fyddai'n ddull gweithredu un maint i bawb, byddai gwahanol ddulliau yn seiliedig ar anghenion y dysgwyr ar draws y stad ysgolion a byddai cyfres o ddatrysiadau pwrpasol yn seiliedig ar ysgolion ac anghenion y dysgwyr unigol. Ychwanegodd fod ffocws y cynllun nid am adferiad yn unig, ond ei fod hefyd am adnewyddu ac y byddai dysgu o brofiadau yn delio gyda phandemig Covid-19 yn rhan o hynny. Mae dysgu cyfunol a'r ffordd y caiff dysgwyr eu cefnogi drwy TGCh yn ganlyniad uniongyrchol bod mewn sefyllfa pandemig, sydd wedi ysgogi newid digidol cadarnhaol sylweddol ar draws y stad ysgolion.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes ei fod yn asesiad effaith lefel uchel iawn sydd yn ei ddyddiau cynnar a'u bod yn dal i weithio gydag ysgolion i gefnogi'r ymateb. Yng nghyswllt yr effaith allweddol – trydydd sector gwirfoddol a gwaith elusennol ac ymgysylltu – mae hyn yn seiliedig ar ymgysylltu ar safleoedd ysgol yn hytrach na'r gwaith am adferiad a wnaed yn ystod y sesiwn academaidd ddiwethaf a chyn hynny. Bu cefnogaeth y gymuned yn hollol hanfodol yn neilltuol wrth ddosbarthu prydau ysgol am ddim ac yn y blaen a theimlai fod hyn yn dangos lle mae bylchau o safbwynt cymuned ysgol, bod fel arfer lefel sylweddol o ymgysylltu gyda gwahanol elusennau a phartneriaid trydydd sector gwirfoddol ac yn y blaen, fodd bynnag roeddent wedi methu mynd ar safleoedd ysgol oherwydd y cyfyngiadau o amgylch Covid.

Er eglurhad dywedodd y Cadeirydd y dylai'r geiriau 'seiliedig yr ysgol' gael eu cynnwys yn yr effaith allweddol – gwaith ymgysylltu trydydd sector gwirfoddol a phartneriaeth.

CYTUNWYD ar y llwybr gweithredu hwn.

| | |
|---|---|
| | Teimlai Aelodau y dylai'r prif adroddiad fod wedi cynnwys y gwaith da a wnaethpwyd tebyg i welliannau digidol ac yn y blaen. Ategodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant fod y rhain yn ddatganiadau lefel uchel ac y byddai cynllun gweithredu o amgylch pob un ohonynt yn canolbwyntio ar y ffordd mae ysgolion yn symud ymlaen yn ogystal â'r ffordd y gall yr Awdurdod Lleol gefnogi ysgolion a gweithio gyda EAS i symud ymlaen ym mhob un o'r meysydd. Dywedodd fod y cynllun yn seiliedig ar anghenion pob ysgol unigol a byddai cynrychiolwyr penaethiaid ysgol o bob un o'r clystyrau hefyd yn gweithio ar y cynlluniau.<br><br>Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Busnes bod yr asesiad effaith yn dangos meysydd o lwyddiant amlwg ac y byddent yn parhau i wneud hynny, y byddai'r dysgu yn llywio datblygiad y cynllun o hyn ymlaen. Teimlai fod yr adroddiad yn adlewyrchu ar ba gam y mae'r asesiad effaith a'r broses gynllunio ac mae'r manylion yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn Aelod am sut y byddai EAS yn trin mater edrych ar asesu lle mae disgyblion arni ar hyn o bryd a lle mae angen iddynt fod i baratoi ar gyfer eu TGAU, dywedodd y Prif Gynghorydd Her fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi na fyddai arolygiadau Estyn yn ailddechrau tan y gwanwyn, cafodd mesurau perfformiad eu gohirio unwaith eto ac mae EAS yn ceisio cael cymaint o wybodaeth ag sydd modd am gynnydd dysgwyr. Ar ôl y Pasg byddai ysgolion yn cynnal rhai profion llinell sylfaen i geisio edrych ar y cynnydd a wnaeth plant i weld lle maent arni nawr a lle mae angen iddynt fod a beth fyddai'n digwydd ar lefel ysgol unigol. Byddai'r EAS yn cael trafodaethau proffesiynol gyda phenaethiaid ysgolion mewn ffordd fanwl ac arbenigol iawn am y systemau sy'n mynd rhagddynt o fewn ysgolion i sicrhau'r penaethiaid ysgol fod asesiad yn gywir ar gyfer yr oedran a cham y plentyn ac y gwneir y dyfarniad cywir am gynnydd y plentyn. Dywedodd y bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori rhwng mis Ionawr a mis Ebrill gyda dull gweithio newydd ar systemau gwella ac atebolrwydd ysgolion, sy'n esbonio ac yn nodi'n fanwl rôl pob haen o fewn y system. Rôl ysgolion o fewn y system yw sicrhau fod hunanarfarnu a chynllunio datblygu ysgolion yn gywir ac y cynigir ffyrdd o weithio yn seiliedig ar egwyddorion cynhwysfawr o fewn y ddogfen ymgynghori. Ar gyfer craffu, byddai hyn yn golygu bod yr EAS yn cynnig cwrdd gyda phob ysgol yn nhymor yr hydref, rhai ym Mlaenau Gwent, i dreialu dialog proffesiynol newydd h.y. cywirdeb hunanarfarnu ysgolion, y systemau ar gyfer hunanarfarnu a sut mae ysgolion yn ysgogi'r meysydd pwysicaf ar gyfer gwella. Byddai olrhain ac asesu o fewn ysgolion yn rhan allweddol o hynny a gellid sicrhau penaethiaid ysgol a'r Cyngor bod ysgolion yn cadw gwybodaeth gywir ar blant ac n medru dynodi unrhyw broblemau.<br><br>Yng nghyswllt y ddogfen ymgynghori, dywedodd y Prif Gynghorydd Her fod symud ymaith o ddata caled wrth edrych ar ddarpariaeth mewn ysgolion i ystod mwy ansoddol, trionglog o ddata aml-ddimensiwn, yn cynnwys llais plant, llais rhieni a gwersi. Hwn yw'r llyw gan Lywodraeth Cymru a dan y fantell honno y byddai EAS yn gweithio yn y misoedd nesaf. Byddai'n rhannu'r ddogfen ymgynghori gydag Aelodau er gwybodaeth. |

| | |
|---|---|
| | Cyfeiriodd Aelod at y bil ADY newydd a ddisgwylir ym mis Medi a bod y Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant yn gadael yr Awdurdod a holodd sut y caiff hyn ei drin wrth symud ymlaen. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y cyflwynwyd adroddiad yn flaenorol i'r Pwyllgor Craffu yn amlinellu'r paratoadau ar gyfer diwygio ADY a bod yr adroddiad hwn wedi rhoi sicrwydd i Aelodau fod yr Awdurdod wedi paratoi'n dda ar gyfer gweithredu ym mis Medi. Mynegodd ei ddiolch i'r Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant am ei holl waith yn paratoi'r Awdurdod ar gyfer diwygio ADY a hefyd ei waith ar yr agenda cynhwysiant. Mae cyfle yn awr ar gyfer recriwtio ac adeiladu ar brofiadau o benodi'r Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant a chytunwyd ar ddull i gynnig y swydd ar sail secondiad ar draws y stad ysgolion. Manteision y dull hwn yw y byddai'n rhoi cyfle Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer aelod o staff a hefyd yn rhoi cyfle i'r Awdurdod Lleol i weld sut mae'r aelod o staff yn setlo i'r rôl. Roedd y Cyfarwyddwr yn gobeithio dechrau'r broses recriwtio yn y dyfodol agos i sicrhau capasiti ar gyfer y symud tuag at weithredu o fis Medi 2021.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod at amseriad y secondiad gan y byddai angen i'r ysgol lanw swydd yr ymgeisydd llwyddiannus a allai fod yn bennaeth neu'n ddirprwy bennaeth ar gyfer cyfnod y secondiad ac y gallai hyn fynd â chryn amser. Dywedodd y Cyfarwyddwr na fyddai o reidrwydd yn bennaeth neu ddirprwy bennaeth oedd yn gwneud cais am y swydd, gallai er enghraifft fod yn Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol neu arbenigwr yn y maes Cynhwysiant. Nid oes unrhyw fwriad i ddadsefydlogi unrhyw drefniadau ysgol gyda'r apwyntiad hwn a byddent yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion i sicrhau parhad.<br><br>Yng nghyswllt capasiti a medru cefnogi ysgolion, yn neilltuol arweinyddiaeth ysgol, dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant, er mwyn sicrhau fod popeth yn ei le ganddynt i ddiwallu anghenion y Bil ADY newydd, bod Ysgol Gyfun Tredegar wedi derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer capasiti ychwanegol i fynd allan a gweithio'n benodol gydag ysgolion yn y cyswllt hwn.<br><br>Cododd Aelod bryderon, oherwydd nad oedd arolygon ysgolion yn cael eu cynnal bellach, y byddid yn cydnabod sut y gellir gwneud gwelliannau i'r ddwy ysgol yn y categori achos consyrn. Dywedodd y Prif Gynghorydd Her y cafodd categoreiddio ei ohirio am flwyddyn arall a rhoddodd sicrwydd y byddai ysgolion yn parhau i dderbyn y lefel gywir o gefnogaeth, mae EAS yn cynnig fel rhanbarth y byddent yn dal i fod â'r drafodaeth broffesiynol honno gyda'r penaethiaid ysgolion ac y byddai lefelau'r gefnogaeth y byddai ysgolion yn ei gael am y flwyddyn i ddod yn cael ei benderfynu yn y trafodaethau hynny. Byddai'r awdurdod lleol, EAS, penaethiaid ysgolion ac uwch arweinwyr i gyd yn edrych ar anghenion yr ysgol i sicrhau y cytunwyd ar y nifer gywir o ddyddiau, gallai hyn fod tua 5 diwrnod gyda dyddiau ychwanegol wedi eu hychwanegu os yw'r ysgol angen mwy o gefnogaeth.<br><br>Yng nghyswllt ysgolion yn achosi consyrn yn y categori coch, mae hyn yn dal yn broses statudol a byddai angen i'r EAS ddilyn y broses i sicrhau y |

caiff yr ysgolion hynny eu cefnogi ac yr adroddir eu cynnydd i Aelodau a phob rhanddeiliad. Fodd bynnag, ni fyddid mwyach yn rhoi adroddiad ar y categoreiddiad lliw gan mai un o gyfyngiadau categoreiddio oedd y gallai ysgol fod yn gwella yn y cefndir ond yn dal i fod yn y categori coch heb i'r gwelliannau hynny gael eu cydnabod gan y gymuned. Teimlai fod cyfle yn awr i'r ysgolion ym Mlaenau Gwent sy'n gwella i arddangos eu gwelliannau drwy weithio gyda rhieni, adran Cyfathrebu Corfforaethol y Cyngor a'r wasg leol ac i gael gwybodaeth ar wella ysgolion i fforymau lleol i roi gwybodaeth i'r gymuned. Cyfeiriodd at yr ŵyl llythrennedd yn Ysgol Sefydliadol Brynmawr a dywedodd mai dyna'n union y math o newydd sydd angen iddo fod allan yn y gymuned.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod cynnydd yn cael ei wneud yn neilltuol gyda'r ddwy ysgol sydd mewn categori Estyn ar hyn o bryd. Yng nghyswllt cyfathrebu a'r gwelliannau a wneir ar gyfer y ddwy ysgol hyn, roedd Cyfathrebu Corfforaethol wedi gweithio'n agos gyda'r ysgolion i gael negeseuon cadarnhaol allan yn y gymuned. Cyfeiriodd at yr ŵyl lythrennedd wych yn Ysgol Sefydliadol Brynmawr a dderbyniodd sylw cenedlaethol ar y teledu a dywedodd fod hwn yn un llinyn o'r gwaith y mae Cyfathrebu Corfforaethol yn ei cefnogi. Dywedodd fod Estyn wedi cyhoeddi'n ddiweddar y caiff arolygiadau craidd eu gohirio ac y byddai ymweliadau monitro yn parhau i ddigwydd a bod hwn yn gyfle i'r Arolygiaeth i asesu'r cynnydd a wneir. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r ysgolion hynny i ddangos cynnydd a rhoi anogaeth ar gyfer eu teithiau gwella.

Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant y bu cyfarfodydd wythnosol gydag ysgolion i sicrhau fod cymaint o wybodaeth ag sydd modd mas yn y wasg leol a hefyd y cafodd yr ŵyl lythrennedd ei rhannu gyda'r holl benaethiaid ysgol yn eu cyd-gyfarfod diwethaf ac y gallodd pob un o'r ysgolion gymryd rhan ac ymuno mewn nifer o'r gweithgareddau. Teimlai fod hon yn ffordd arall o hyrwyddo'r gwaith gwych sy'n digwydd ar draws y stad ysgolion.

Dywedodd y Rheolwr Strategol Gwella Addysg y gall newid canfyddiad fod yn anodd iawn a bod angen defnyddio nifer o strategaethau a thrwy waith Cyfathrebu Cymunedol maent yn gweithio i gefnogi'r ysgolion i ymgysylltu'n well gyda'u rhieni. Rhoddodd enghraifft fod Cymuned Ddysgu Abertyleri wedi gofyn iddynt hwyluso cyfarfod yng nghyswllt lansio eu prosbectws ysgol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at recriwtio Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant ac awgrymodd bod y Gyfarwyddiaeth Addysg yn cydlynu gyda'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod y swydd hon wedi cysylltu gyda'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod perthynas dda rhwng y Cyfarwyddiaethau a'i fod yn edrych ar adeiladu ar gyfer y cydweithio hwn e.e. drwy waith Pontio'r Bwlch ar ymyriad cynnar ac ataliad.

Cyfeiriodd Aelod at yr ymgyfraniad bythefnosol wrth lunio'r Cwricwlwm i Gymru ar dudalen 75 a holodd sut y byddent yn sicrhau y caiff hyn ei

| | |
|---|---|
| | weithredu yn y ffordd gywir. Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant fod y cwricwlwm newydd yn rhoi rhyddid i ysgolion i lunio'r cwricwlwm i ateb anghenion eu cymunedau ysgol lleol. Maent yn gweithio 'n agos gyda EAS i sicrhau fod ganddynt yr hyfforddiant cywir i roi'r gefnogaeth ar gyfer gweithio ysgol i ysgol ac i drefnu'r gefnogaeth y byddai gwahanol ysgolion ei angen. Byddai hyn yn sicrhau fod darpariaeth yn ei lle i alluogi grymuso ysgolion i ddatblygu'r cwricwlwm yn y ffordd a ddymunent.<br><br>Dywedodd y Prif Gynghorydd Her fod gan EAS raglen genedlaethol i'w chyflawni ar ran yr awdurdod lleol. Bu'r awdurdod lleol, penaethiaid ysgol, dirprwy benaethiaid ysgolion ac uwch arweinwyr i gyd yn rhan o'r rhaglen genedlaethol a chaiff y rhaglen honno yn awr ei chyflwyno i arweinwyr canol o fewn Blaenau Gwent. Cyfeiriodd at y trafodaethau proffesiynol a'r wybodaeth a gafwyd o'r trafodaethau hyn tebyg i beth yw cryfderau ysgolion, beth yw'r meysydd i'w datblygu ac yn y blaen ac y byddai'r rhan fwyaf o hynny yn cael ei gyflwyno drwy fodel darpariaeth ysgol i ysgol lle mae un ysgol yn cefnogi ei gilydd.<br><br>Dywedodd yr Aelod fod gweithio ysgol i ysgol yn gweithio'n dda gydag ysgolion yn helpu ei gilydd. Teimlai fod hunanarfarnu wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i addysg.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn yr adroddiad, y dogfennau cysylltiedig a'r llwybr gweithredu a gynigiwyd a<br><br>CHYTUNODD YMHELLACH i gynnwys y geiriau 'seiliedig yn yr ysgol' yn yr effaith allweddol – gwaith ac ymgysylltu Gwirfoddol/Trydydd Sector Elusennol – Cafodd cyfleoedd i gynnwys partneriaid ei gyfyngu'n sylweddol oherwydd goblygiadau gweithredol yn gysylltiedig gyda COVID-19. |

| Item ID | 4933 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Perfformiad a Monitro Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin (Ebrill 2020 – Mawrth 2021) |
| Summary | Datganodd y Cynghorydd S. Healey fuddiant yn yr eitem ddilynol ac arhosodd yn y cyfarfod.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a'r Rheolwr Gwasanaeth – Pobl Ifanc a Phartneriaethau a gyflwynwyd i ddiweddaru Aelodau ar berfformiad Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ac i egluro'r trefniadau monitro perfformiad ar gyfer y dyfodol.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Pobl Ifanc a Phartneriaethau am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Soniodd y Cadeirydd am y berthynas well rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth a dywedodd fod hyn yn fanteisiol i'r gymuned. Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ymddiriedolaeth y bu ymdrech tîm gan |

| | |
|---|---|
| | bawb, roedd Cyngor Blaenau Gwent wedi ymgysylltu'n agored gyda'r Ymddiriedolaeth i gael perthynas well. Ychwanegodd y bu staff yr Ymddiriedolaeth yn rhagorol wrth gefnogi ymateb y Cyngor drwy gydol y cyfnod Covid.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am hybiau mewn llyfrgelloedd, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau iddynt weithio'n agos ar y prosiect o'r dechrau i'r diwedd ac y teimlai nad oedd unrhyw anfanteision gan y gallai preswylwyr lleol yn awr ddefnyddio'r gwasanaeth oedd ar gael ar garreg eu drws. Mae hefyd yn newyddion da i lyfrgelloedd gan ei fod yn agor cynulleidfa newydd gyfan.<br><br>Holodd y Cadeirydd am bosibilrwydd canolfannau hamdden fel y gallai'r gwasanaeth agor ar fwy nag un diwrnod yr wythnos. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau y gallai hyn fod yn broblem yng nghyswllt staffio. Dim ond ar gyfer y mis nesaf yr oedd y penderfyniad i agor un diwrnod yr wythnos, rhwng 21 Mehefin a 24 Gorffennaf, ac mae hyn oherwydd nifer defnydd gyda phellter cymdeithasol yn ei le. Byddent yn symud i gyfnod newydd o 25 Gorffennaf ac yn ailagor yn llawn.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn adroddiad rhagorol ac roedd yn falch i nodi y cafodd staff eu hadleoli i helpu gydag ymateb Covid ac roedd eisiau cofnodi ei ddiolch yr agorwyd Tŷ Bedwellte fel canolfan frechu Covid ar gyfer preswylwyr Tredegar gan fod yr ysbyty newydd yn dal i gael ei adeiladu. Roedd hefyd yn falch i nodi fod yr Ymddiriedolaeth yn awr yn cael mynediad i gyllid grant a gobeithiai y byddai hyn yn helpu i godi'r cyfleusterau lan i'r safon a bod yn llwyddiannus o hyn ymlaen.<br><br>Dywedodd Aelod arall y teimlai fod yr Ymddiriedolaeth mewn lle gwahanol i ble oedd 2-3 blwyddyn yn ôl a chanmolodd y gwaith a wnaed yn troi'r Ymddiriedolaeth o amgylch. Dywedodd fod ysbryd y staff yn llawer gwell a bod y berthynas gydag ysgolion wedi gwella hefyd.<br><br>Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg gyda sylwadau'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed a'i fod wedi mynd i'r canolfannau chwaraeon yn ddiweddar i edrych ar y datblygiadau diweddar o fewn yr ardaloedd ffitrwydd a theimlai fod y gwaith a wnaed yno yn flaengar iawn a bod y datblygiadau'n rhoi Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol. Teimlai fod proffesiynoldeb ac ymrwymiad gan staff ar draws y bwrdd a mynegodd ei werthfawrogiad i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Rheolwr Gwasanaeth Pobl Ifanc a Phartneriaethau am feithrin y berthynas well rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth.<br><br>Diolchodd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol am ei sylwadau a dywedodd fod y Rheolwr Gwasanaeth yn ddolen ragorol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Cyngor ac y bu'n helpu gwirioneddol drwy gydol yr holl broses. Teimlai fod yr aliniad newydd gydag addysg yn gweithio'n dda iawn ac mae'r Ymddiriedolaeth yn edrych ymlaen yn awchus at y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod Aelodau'n craffu'r perfformiad blaenorol a derbyn cynigion yr adroddiad ar gyfer trefniadau adrodd yn y dyfodol. |

| Item ID | 4934 |
|---|---|
| Item Title | Rhaglen Gwella Ysgolion 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant a'r Rheolwr Strategol Gwella Addysg a gyflwynwyd i roi trosolwg i Aelodau o'r ysgolion hynny a gafodd arolwg yn y cyfnod, yn cynnwys yr ysgolion hynny a gyflwynodd fel achos consyrn, a'u cynnydd a'r gwaith a gyflawnwyd neu sy'n mynd rhagddo i barhau i'w cefnogi i wella.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Holodd y Cadeirydd am y troi o amgylch yng Nghanolfan yr Afon i fyfyrwyr ddychwelyd i addysg brif ffrwd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod Canolfan yr Afon yn ysgol 64 lle gyda 40 lle troi o amgylch a 24 lle parhaol ac un o'r ystyriaethau sydd angen ei ddatblygu a'i gryfhau o'r gwaith a wnaed o amgylch y 40 lle troi o amgylch. Roedd pryderon nad yw dysgwyr yn cael eu rhoi yn ôl mewn gosodiadau prif ffrwd gyda'r gefnogaeth angenrheidiol ac mae hyn yn ystyriaeth sy'n gysylltiedig gyda'r llythyr hysbysiad cyn-rhybudd. Ychwanegodd fod Cytundeb Gwasanaeth yn cael ei ddatblygu. Byddai'n drefniant partneriaeth tairochrog rhwng yr awdurdod lleol, Canolfan yr Afon a'r ysgol sy'n derbyn a theimlai fod angen i'r ysgol angen mwy o gydweithio gyda phartneriaid yn nhermau dychwelyd dysgwyr yn ôl i leoliadau prif ffrwd a bod hyn yn ddarn blaenoriaeth o waith i symud ymlaen.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn eithaf pryderus fod Canolfan yr Afon wedi mynd o Oren i Felyn ac nawr mewn sefyllfa rhybudd. Cyfeiriodd at bara 4.1.2.3 capasiti ysgol a threfniadau derbyn ar gyfer dysgwyr a dywedodd y bu problem barhaus gyda gwaith papur gweinyddol h.y. ar rai achlysuron na chafodd y gwaith papur cywir ei anfon at Ganolfan yr Afon iddynt wybod am y problemau posibl a hefyd pan ddychwelodd disgyblion i leoliadau prif ffrwd, nid oedd y gwaith papur wedi dilyn a holodd os cafodd y materion hyn eu trafod.<br><br>Teimlai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod categoreiddiad blaenorol Canolfan yr Afon fel ysgol Felyn yn adlewyrchiad hanesyddol o statws perfformiad yr ysgol ac mae'r categoreiddiad hwn yn amheus. Cafodd y Corff Llywodraethu ei gryfhau gyda'r awdurdod lleol wedi penodi tri o lywodraethwyr i gefnogi gwaith y Corff Llywodraethu. Roedd trefniadau derbyn yn rhan o'r llythyr hysbysiad cyn-rybudd a theimlai fod angen mwy o ymgysylltu gan yr ysgol. Nid ydynt yn ymgysylltu ar hyn o bryd yn y trefniadau Panel Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd y gwaith papur gweinyddol yn cael ei gynhyrchu ond teimlai fod angen i'r ysgol gymryd rhan |

yn y Panel ADY pan fo dysgwyr yn cael eu trafod ar gyfer lleoliad posibl o fewn Canolfan yr Afon ac unwaith eto byddai hyn yn rhan o'r llythyr hysbysiad cyn-rhybudd ac mae angen datrys hynny gyda'r ysgol.

Bu'r Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant mewn trafodaethau gyda'r Pennaeth i ddynodi a datrys unrhyw broblemau parhaus a theimlai ei fod yn bwysig fod aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cymryd rhan yn yr holl drafodaethau fel y byddent yn gwybod am ddisgyblion a allai o bosibl gael eu lleoli yng Nghanolfan yr Afon. O fis Medi, byddai'r gwasanaeth yn edrych ar ailddechrau lleoliadau deuol lle caiff disgyblion eu lleoli yng Nghanolfan yr Afon am bedwar diwrnod yr wythnos ac wedyn yn ôl yn eu hysgol wreiddiol am un diwrnod yr wythnos. Byddai hyn yn rhan o gefnogi'r bobl ifanc hynny i fedru dychwelyd i ysgol brif ffrwd.

O safbwynt categoreiddio, dywedodd y Prif Gynghorydd Her nad yw trefniadau derbyn yr ysgol yn rhan o'r drafodaeth honno ac felly na allai EAS ffurfio barn yng nghyswllt y trefniadau derbyn fel rhan o'r drafodaeth categoreiddio. Mae agweddau o arweinyddiaeth yr ysgol yn ystod y pandemig lle'r oedd llai o eglurdeb o amgylch darpariaeth yr ysgol ar gyfer dysgwyr. Dywedodd hefyd nad oedd yr ysgol wedi derbyn rhybudd swyddogol ond wedi derbyn hysbysiad cyn-rybudd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg. Mae nawr gynlluniau cryf yn eu lle i gefnogi'r ysgol 'i symud ymlaen.

Cyfeiriodd yr Aelod eto at y gwaith papur gweinyddol gan ei bod yn bwysig y caiff y gwaith papur ei weinyddu gyda chofnodion y disgybl fel y gwyddai'r ysgol am broblemau posibl cyn i'r disgybl fynychu'r ysgol. Teimlai hefyd fod angen gwella'r mater hwn er mwyn helpu disgyblion i fynd yn ôl i addysg brif ffrwd.

Dywedodd y Cadeirydd y bu hyn yn broblem am nifer o flynyddoedd ac roedd wedi gobeithio ei fod yn gwella ac y cynhaliwyd cyfarfodydd i drafod plant yn mynychu'r ysgol. Teimlai ei bod yn arbennig o bwysig ar gyfer lleoliadau allan o'r sir yn mynd i Ganolfan yr Afon fel bod gan yr ysgol yr holl wybodaeth gywir am y disgybl dan sylw.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant y cynhelir cyfarfodydd i drafod yr wybodaeth am blentyn yn mynychu Canolfan yr Afon ond yn anffodus nid oedd aelodau o staff Canolfan yr Afon yn bresennol bob amser a bod hyn yn fater y maent yn ceisio ei ddatrys gan ei fod yn gyfle i rannu gwaith papur a thafod unrhyw broblemau. Cafodd y gwaith papur statudol ei ddarparu ar rai achlysuron ond roedd Canolfan yr Afon wedi gofyn am waith papur ychwanegol a gallai hynny arwain at broblemus GDPR y maent yn ceisio ei datrys fel na fyddai unrhyw broblemau pellach o fis Medi.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid paratoi adroddiad pellach ar Ganolfan yr Afon yng nghyswllt nifer y dysgwyr sy'n dychwelyd i addysg brif ffrwd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y byddai'n sicrhau fod yr adroddiadau ar wella ysgolion a gyflwynir i'r Pwyllgor yn cynnwys naratif

| | |
|---|---|
| | sy’n amlinellu’r cynnydd a wneir am y trefniadau troi o amgylch ‘drws troi’ yng Nghanolfan yr Afon.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef derbyn yr adroddiad fel y’i darparwyd. |